Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** Gweithiwr Gofal
**Lleoliad:** Cartref Preswyl Cwrt Mytton
**Cyfeirnod:** BG15963, BG15924, BG16561, BG16539
**Statws Contract:** Parhaol
**Cyflog:** Gradd 4 (£25,584 - £27,711 y flwyddyn pro rata)
**Dyddiad:** 14, 16, 23, 24.5 awrs

## Crynodeb o'r Swydd

Ydych chi'n edrych am yrfa werth chweil sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd pobl? Does dim raid edrych ymhellach na'n swyddi gweithwyr gofal. Fel gweithiwr gofal, cewch gyfle i ddarparu cymorth a gofal hanfodol i unigolion mewn angen, gan eu helpu i fyw eu bywydau i'r llawnaf. Gydag amserlenni hyblyg a thâl cystadleuol, mae ein tîm yn ymroddedig i ddarparu'r lefel uchaf o ofal tra'n meithrin amgylchedd gwaith cefnogol a chydweithiol. Ymunwch â ni a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill tra'n adeiladu gyrfa werth chweil i chi eich hun. Gwnewch gais nawr a dechrau ar eich taith tuag at yrfa ystyrlon a gwerth chweil fel gweithiwr gofal.

## Hysbyseb Lawn

### Am y swydd

Ydych chi'n unigolyn caredig sydd wrth eich bodd yn gwella bywyd pobl eraill? Os felly, mae gennym gyfle cyffrous i chi! Rydym yn edrych am Weithwyr Gofal ymroddedig i ymuno â'n tîm, gan gynnig amrywiaeth o swyddi gwerth chweil gydag oriau gweithio hyblyg i weddu eich ffordd o fyw. Mae ein contractau yn cynnwys opsiynau dros dro a pharhaol, felly p'un ai ydych yn edrych am waith llanw neu swydd hirdymor, mae gennym rywbeth i bawb.

Fel Gweithiwr Gofal cewch cyfle i gefnogi unigolion o bob oed gydag anghenion gofal a chymorth amrywiol. O helpu pobl i aros yn egnïol i'w cefnogi yn cyflawni eu huchelgais am annibyniaeth, bydd eich rôl yn hollbwysig wrth eu helpu i fyw bywyd ystyrlon.

Croesawn unigolion o bob cefndir, p'un ai ydych yn ofalwr profiadol neu ddim ond dechrau ar eich gyrfa. Mae nodweddion tebyg i garedigrwydd, amynedd, parch a gwytnwch yn bwysig i ni, a chredwn fod profiad bywyd yr un mor bwysig â phrofiad gwaith. Nid oes angen profiad blaenorol mewn cartref gofal i ymuno â'n tîm cyfeillgar a chefnogol, gallwn ddarparu'r holl hyfforddiant angenrheidiol i chi.

Bydd ymuno â'n tîm yn rhoi mynediad i chi i amrywiaeth o fuddion, yn cynnwys cyflogau cystadleuol, oriau gwaith hyblyg a chyfleoedd i hyfforddi a sicrhau cynnydd yn eich gyrfa. Yn bennaf oll, byddwch yn cael llawer iawn o foddhad swydd yn gwybod fod eich gwaith yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywyd pobl.

**Amdanoch chi**

Bydd eich rôl fel Gweithiwr Gofal yn cynnwys gwasanaethu fel model rôl gadarnhaol ar gyfer y rhai sydd yn eich gofal. Byddwch yn gweithio'n agos gyda nhw i'w helpu i oresgyn yr heriau maent yn eu hwynebu yn eu bywyd dydd-i-ddydd.

Fel aelod o'n tîm, byddwch yn ymuno â grŵp o unigolion angerddol sy'n ymroddedig i'r gymuned a'i phobl. Mae'r rhagolygon yn gyffrous, a rydym yn edrych am unigolion o'r un anian i'n helpu i gyflawni ein nodau. Edrychwn am unigolion sy'n ymroddedig i wneud gwahaniaeth, ac a gaiff eu gyrru i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y rhai y gweithiant gyda nhw. Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych os ydych yn rhannu ein hangerdd a brwdfrydedd dros ddarparu gofal rhagorol.

**Amdanom ni**

Ymunwch â'n tîm yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, lle'r ydym yn ymfalchïo yn ein hysbryd blaengar a chreadigol. Rydym yn sefydliad amrywiol ac egnïol sydd â hanes hir o ddod â chymunedau ynghyd i yrru newid cymdeithasol real.

Edrychwn am unigolion sy'n ymroddedig i ragoriaeth ac sy'n fodlon herio eu hunain mewn amgylchedd sydd ar flaen y gad. Ein nod yw recriwtio a datblygu'r dalent orau fydd yn rhoi'r lle blaenllaw i'n cwsmeriaid, cymryd cyfrifoldeb, cydweithio a chanfod ffyrdd gwell o wneud pethau. Drwy ymuno â'n tîm, cewch gyfle i gael effaith gadarnhaol ar ein cymuned a bod yn rhan o grŵp ifanc eu hysbryd a deinamig sy'n ymroddedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau i'n preswylwyr.

**Ein hymrwymiad i chi:**

- Hyfforddiant sefydlu cynhwysfawr fydd yn rhoi'r hyder i chi ymgymryd â'ch rôl
- Derbyn hyfforddiant a chyfleoedd datblygu proffesiynol i hybu eich sgiliau a'ch gwybodaeth
- Mwynhau pecyn cyflog cystadleuol a buddion, yn cynnwys opsiynau gweithio hyblyg a gwyliau blynyddol hael
- Cynllun pensiwn llywodraeth leol rhagorol.

**Hoffech chi wybod mwy a gwneud cais?**

Darllenwch y disgrifiad swydd a'r fanyleb person isod cyn clicio 'Gwneud cais' i ddechrau'r ffurflen gais ar-lein.

Mae angen cofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y swydd hon. Os nad ydych wedi cofrestru eisoes, yna bydd angen i chi gofrestru o fewn chwe mis i ddechrau eich cyflogaeth. Mae gwybodaeth am sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ganlynol: https://gofalcymdeithasol.cymru

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.**

**Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.**

**Dyddiad Cau:** **03-04-2025 - 12:00am, canol nos**
**Dyddiad Cyfweliadau:** **I'w gadarnhau**